O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 684 (Cy. 162)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), Caerdydd) a Thraffordd yr A48(M) (Cerbytffordd tua'r Gorllewin) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mai 2017* |
| *Yn dod i rym* | *29 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4 Llundain i De Cymru a Thraffordd yr A48(M), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r traffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1),(4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Mai 2017 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), Caerdydd) a Thraffordd yr A48(M) (Cerbytffordd tua'r Gorllewin) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2017.

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod penodedig" ("*specified period*") yw unrhyw gyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 29 Mai 2017 ac sy'n dod i ben pan nad yw'r arwyddion traffig dros dro yn cael eu harddangos mwyach;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw; ac

ystyr "y traffyrdd" ("*the motorways*") yw traffordd yr M4 Llundain i De Cymru rhwng Cyffordd 23a (Magwyr) yn Sir Fynwy a Chyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) yn Ninas a Sir Caerdydd a'r A48(M) yn Ninas Casnewydd ac yn Ninas a Sir Caerdydd.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod penodedig, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r traffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r traffyrdd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny ac i'r graddau a ddangosir gan arwyddion traffig.

**Cymhwyso**

**5.** (1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan

y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am un wythnos ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Mai 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

(M4)

1. Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 23a (Magwyr) hyd at bwynt 675 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Trefesgob - Llanfarthin.

2. Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin o bwynt 22 o fetrau i'r gorllewin o ben gorllewinol paraped tanbont Forge Road hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd).

3. Ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 23a (Magwyr) o'i chyffordd â'r A4810 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

4. Ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 28 (Parc Tredegar) o'i chyffordd â'r A48 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

5. Ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 30 (Pentwyn) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A4232.

6. Ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 30 (Pentwyn) o'i chyffordd â'r A4232 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

7. Ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 32 (Coryton) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin am bellter o 271 o fetrau.

8. Ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 32 (Coryton) o'i chyffordd â'r A4054 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

9. Ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin am bellter o 245 o fetrau.

(A48(M))

10. Y gerbytffordd tua'r gorllewin o'i chyffordd â thrwyniad ffisegol y ffordd ymadael wrth Gyffordd 29 hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno wrth yr A48 Eastern Avenue, Llaneirwg.